

PERTHYN

Chwefror 2022

Rhifyn 304



Crëwr: Redsimon (https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Snowdrop_clump.jpg)
(<https://creativecommons.org/licenses/by/3.0/deed.en>)

Gobaith 2022

Er y gaeaf a'r gwywo, - er ein cloi
Dan rew'n clwy', daw eto
O bridd rhyfeddol ein bro
Ynni Duw i flodeuo.

Iwan Bryn James

Gair gan y Gweinidog

Mae'n anodd credu ei bod hi'n ddiwedd mis Ionawr! Ar ôl wythnosau o ddisgwyl a darparu, fe ddaeth y Nadolig gyda'i ddathliadau a'i orffwys a bellach mae hi'n flwyddyn newydd. Y mae i bob blwyddyn ei gobeithion ond fe fyddai'n wir dweud bod y gobeithio hynny'n ddwysach y dyddiau yma. Ar drawiad y cloc fe lithrodd y flwyddyn 2021 yn dawel i'r gorffennol a gyda hynny'r teimlad bod y flwyddyn 2020 ymhellach o'n gafael. Fe ddechreuodd y flwyddyn honno gyda'i phatrymau arferol ond buan y dechreuodd bethau newid a'r sylweddoliad bod rhywbeth mawr ar y gorwel. 'Golchwch eich dwylo yn drylwyr!' meddai'r hysbysebion, a ninnau'n ddeddfol, ddiniwed yn canu emyn er mwyn amseriad, ac yn sgrwbio'n ofalus, heb sylweddoli bod gwaeth i ddod. Ac felly y buodd hi a ninnau o fis i fis yn gobeithio am newid ac yn dyheu am weld rhyw fesur o normalrwydd yn dychwelyd. Nid fel yna mae hi wedi bod, ond yn hytrach misoedd o addasu a cheisio byw ein bywydau dyddiol mewn ffyrdd gwahanol a dieithr ar adegau. Yng nghanol hyn i gyd fe brofwyd yr amrywiaeth yna o emosiynau sy'n rhan o fywyd, yn llawenydd a thristwch. Hefyd ansicrwydd a hyder ond dim yn fwy na'r nerth rhyfeddol yna sy'n gallu ein cynnal a'n harwain.

Yn y fan yma dwi am dalu teyrnged i gymaint ohonoch am eich ffyddlondeb a'ch gweithgarwch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid tasg hawdd oedd addasu fel eglwys ond teimlaf ein bod wedi cyflawni gymaint â hynny mewn dim o amser. Daeth yr hyn oedd gynt yn syniadau a thrafodaethau yn realiti, a'r ddealltwriaeth o gymdeithas yr eglwys yn cael ei chynnal mewn ffyrdd gwahanol. Nid yn unig y gymdeithas ond hefyd addoliad a thystiolaeth y Morfa a gwelwyd wynebaw newydd yn ymuno o wythnos i wythnos ac yn eu plith rhai dros y ffin a chyn belled â Siapan. Misoedd o ddysgu fu'r misoedd hyn, magu hyder mewn technoleg a deall ffydd a bywyd eglwysig mewn ffyrdd gwahanol, misoedd yn llawn bendithion ond weithiau yn llawn camgymeriadau. Mae bywyd yn llawn cymysgedd. Nid oes rhaid manylu, mae'r ddarpariaeth yn wybyddus i bob un ohonoch ac yn ymddangos yn fisol ar dudalennau *Perthyn*. Digon yw dweud y byddwn yn ystod y

misoedd nesaf yn edrych ar agweddau o'n bywyd fel eglwys a gweld sut mae gwella ac ymestyn y darpariaethau hynny.

Ymhen tair wythnos fe fyddaf yn dychwelyd i fy eglwys gyntaf sef Seion, Croesoswallt i weinyddu'r sacrament o fedydd. Dwi'n edrych ymlaen, ond ar yr un pryd yn sylweddoli bod deng mlynedd ar hugain wedi mynd ers dechrau'r daith weinidogaethol a bod gymaint wedi digwydd. O ddyddiau braf ac unigryw gweinidogaeth i Gymry Cymraeg un o drefi marchnad Sir Amwythig, i weinidogaeth ddwys yn nhref fawr, ôl-ddiwydiannol Llanelli ac yna'r blynyddoedd olaf yma. Wrth feddwl am flynyddoedd Aberystwyth, fe fyddai'n wir dweud bod un peth yn sefyll allan sef y bendithion a brofwyd ymhlith y plant. Oedfaon Teuluol, sgysiau, Clwb Hwyl Hwyr, gweithgaredd yn llawn hwyl ac asbri a brwdfrydedd. Fe ges fendith bersonol yn darparu a mwy o fendith wrth sgwrsio o Sul i Sul a phrofi cymdeithas llawn bywyd a gonestrwydd. Hawdd fyddai manylu; o'r Oedfaon Nadolig a diwedd tymor a gweld y capel bron yn llawn i'r penwythnosau bywiog yng Ngholeg y Bala ynghyd â'r 'heia Eifion' iach yna wrth fynd o gwmpas Aberystwyth. Pam cyfeirio at hyn? Wel yn syml am ddau reswm; yn gyntaf am fod y bywyd yna'n parhau, er efallai'n wahanol a hynny dan arweiniad medrus athrawon yr Ysgol Sul gyda'u gweithgaredd newydd bywiog a llawn dychymyg. Yn ail, oherwydd fy mod am i chi beidio anghofio am yr hyn sydd wedi bod, ac felly mewn diolchgarwch, sylweddoli ein bod wedi dechrau pennod newydd yn ein hanes fel eglwys a'n bod yn gymaint rhan o'r bennod honno ac yr oeddem yn y gorffennol.

Ar ddechrau blwyddyn newydd gadewch i ni ddeall o'r newydd beth yw ystyr bod yn aelod o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist, a gadewch i ni ddefnyddio'n hamser a'n doniau yn ei wasanaeth.

Blwyddyn Newydd Dda a bendithiol i chi gyd a chadwch yn saff!

Eifion

Newyddion

Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at Mary Bott sydd wedi symud i Gartref Cwmcynfelyn ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais ac at Mona Chambers sydd wedi symud o'r ysbyty i Gartref Tregerddan. Mae Mona wedi ymuno â Geraint L. a Iola Jones, Lizzie Jones a Celia Jones yn Nhregerddan ac maent yn mwynhau cymdeithas â'i gilydd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Walford Gealey sydd wedi symud o Ysbyty Bronglais i Gartref Plas y Dderwen ger Caerfyrddin.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty, yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal, hefyd at eu teuluoedd.

Cofiw'n amdanoch i gyd yn ein gweddïau

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â'r canlynol...

*Nia a Simon Barker ar farwolaeth mam Nia, sef Shirley Swallow, Llanfarian. Cydymdeimlwn hefyd â Neil Swallow – priod Shirley a'r wyrion, Rhys ac Efan.

*Margaret Stephens ar farwolaeth ei phriod, Eric Stephens, hefyd â'r merched, Elaine a Gaynor a'r wyrion Beca, Matt, Manon a Cian.

*Alun Morris ar farwolaeth ei chwaer, sef Eluned Lane, Llanfairpwllgwyngyll.

*Siân a Keith Richards ar farwolaeth tad Keith, sef Malcolm Richards, Capel Bangor – tad-cu i Ellie a Billie.

*Huw Owen sydd wedi colli ei gyfnither, sef Anne Hughes Jones, Abertawe.

*Hefin Jones ar farwolaeth ei chwaer-yng nghyfraith, sef Mary Louisa Morgan, Lledrod.

Ebeneser



Ar ddechrau blwyddyn newydd anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl ac yn eu cartrefi eu hunain.

Ar drothwy mis Chwefror edrychwn ymlaen at weld arwyddion y Gwanwyn, gyda'r gobaith o gael cyfarfod i gyd-addoli ar brynhawn Sul.

Diolch

Diolch i'r Gweinidog, yr ymwelwyr a'r aelodau a fu'n cadw cysylltiad cyson â'r aelodau yn eu cartrefi. Boed drwy alwadau ffôn, negeseuon drwy'r post neu negeseuon e-bost. Hynny mewn cyfnod anodd pan nad oedd hi'n bosib ymweld wyneb yn wyneb.

Gwahoddwyd dwy o'r Morfa, Gwenda ac Elin Mair, i sôn am fynychu capel yn eu hienctid a'r dylanwad gafodd hyn ar eu bywydau

Addoli Duw dros y ffin

Fe ges i fy ngeni yn Llundain, i fam o Drefdraeth, Sir Benfro, a thad o Landudno. Yr oedd y ddau yn medru'r Gymraeg, ond cafodd fy mam gyngor i beidio â siarad Cymraeg â fi. Trueni mawr, ond digwyddodd yr un peth i gymaint o bobl ar y pryd. Yr oeddwn mor lwcus â chael cyfleoedd mawr i glywed yr iaith ac i ganu geiriau Cymraeg yn aml, ar ein gwyliau, ac yn y Capeli.

Ces i fy magu yn Bedford, yn aelod o Gapel Bunyan Meeting, lle'r oedd D. Glyn Evans yn weinidog, ac yn ddiweddarach, Peter Protheroe a Chris Damp - pob un ohonynt yn siarad Cymraeg!

Ar ôl i mi briodi a symud yn ôl i Lundain, des i'n aelod o Eglwys Gymraeg Canol Llundain - "Castle Street" ar y pryd. Y mae'r capel hwn wedi bod mor bwysig i fi yn ystod fy mywyd. Cafodd fy nhad ei fedyddio yno, a phriodwyd fy rhieni yno ym 1953, pan oedd y capel yn llawn bob wythnos. Walter P. John oedd y gweinidog ar y pryd. Mae'n debyg mai ei wraig e oedd y ffrind cyntaf i'm gweld fel baban newydd. Yr oedd y gymdeithas yn y capel yn gyfeillgar iawn, gyda chroeso mawr i unrhyw un a oedd yn galw mewn yn ystod gwyliau bach yn Llundain hefyd. Yr un peth sy'n digwydd heddiw. Yno y mae gwasanaeth "canol dydd, canol wythnos, canol Llundain", sy'n gyfle perffaith i ymuno â'r aelodau wrth ymweld â'r brifddinas weithiau. Gyda'r gweinidog, Rob Nicholls, cyn-fyfyriwr brwd o Brifysgol Aberystwyth wrth y llyw, mae cymaint o bethau yn digwydd, ac mae'r capel yn fywiog iawn eto.

Os ydych chi'n ymweld â'r Eglwys Gymraeg Canol Llundain, sylwch ar y canllaw ar risiau'r ffrynt. Mae e yno oherwydd i 'nhad gwmpo unwaith. Er iddo fod yn ddianaf, ymddangosodd y canllaw yn fuan wedyn. Wrth gwrs erbyn hyn, mae lifft i gario'r bobl lan i'r

capel hefyd. I fi, y mae'r capel hwn yn galon fawr Gymraeg yng nghanol prifddinas Lloegr.

Gwenda Sippings

Addoli yn Llanwrtyd

Mae'r capel wedi bod yn rhan bwysig o'm mywyd ers pan oeddwn i'n blentyn. Wrth dyfu i fyny ar fferm ddefaid ger Llanwrtyd - y dref leiaf ym Mhrydain mae'n debyg - mae gen i atgofion lu o fynychu'r capel gyda Mam-gu. Ro'n i'n gorfod eistedd yno'n dawel drwy'r gwasanaeth yn gwylio bysedd y cloc yn troi'n ofnadwy o araf!

Roedd Mam yn ysgrifenyddes Capel Annibynwyr Llanwrtyd, a'r teulu wedi bod yn aelodau yno ers degawdau. Mam hefyd oedd yr organyddes ac anodd oedd iddi gyrraedd y capel mewn da bryd efo pedwar o blant bach i'w trefnu. Fel mam fy hun, dwi'n deall y rhwystredigaeth yma bellach. Ond wedi i ni gyrraedd y capel, byddai'n ras rhwng y pedwar ohonom i osod rhifau'r emynau ar y wal. Dau ohonom yn ymestyn y ffrâm bren o'r wal a'r ddau arall yn chwilio am y rhifau angenrheidiol.

Gan amlaf, gan taw ni, plant Pant-teg, fyddai'r unig blant yn y gwasanaeth, byddem yn cael y fraint, yn ein tro, o gludo plât y casgliad. Sbort mawr ar ôl y gwasanaeth oedd cyfri'r rhoddion i weld pa ochr o'r capel oedd wedi cyfrannu fwyaf!

Roedd Mam-gu yn un dda! Bob bore Sul roedd ganddi lond *handbag* o drugareddau i ddiddanu ei hwyrion a'i hwyresau. A hithau'n eistedd yn y canol - gyda dau blentyn naill ochr iddi, ac wrth iddi synhwyro anesmwythid, byddai'n dosbarthu ei menig lledr. Yn amlwg, roedd 'rhain yn llawer rhy fawr i'n dwylo bach ni ond roeddent yn llaes a chlod gydag arogl arbennig 'mam-gu' arnynt. Braint i ni'r plant oedd cael eu gwisgo. Byddai hefyd â bag bach o 'poppers' plastig a chawsom oriau o ddiddanwch tawel yn

creu amryw siapiau gan ddefnyddio'r 'poppers' bach gwyn hyn. Ond fy hoff beth i... yng nghanol y bregeth, byddem yn cael un *Polo Mint* yr un i'w sugno a phob un ohonom yn brwydro i gadw'r twll yn gyfan am yr amser hiraf. Doedd dim angen ffôn neu I-Pad i'n difyrru pan oedd Mam-gu a'i *handbag* ar gael!

Ar y pryd, mae'n siŵr taw baich i Mam oedd sicrhau ein bod ni'n bedwar wedi codi, 'molchi, gwisgo a chael brechwast cyn cyrraedd y capel erbyn 10 y bore ar ddydd Sul. Roedd hyn heb sôn am y straen a'r embaras y byddem yn ei achosi trwy wneud sŵn yn ystod y gwasanaeth. Mae'n siŵr hefyd ein bod ni blant wedi yngan y geiriau "Oes rhaid i ni fynd?" a "Ma' fe mor *boring*" sawl gwaith ond parhau i fynd byddai rhaid.

Erbyn heddiw, wrth gwrs, 'rwy'n sobor o falch mod i wedi cael y cyfle i fynd i'r capel yn rheolaidd. Rwy'n trysori'r amser *sbeshal* cawsom yn eistedd gyda Mamgu heb sôn am y cyfle i ddod i adnabod cymeriadau Cymreig yr ardal - y rhan fwyaf ohonynt bellach wedi ein gadael. Bu'n ffordd i ni feithrin hunanddisgyblaeth gan eistedd yn llonydd ac yn dawel. Wrth i ni dyfu'n hŷn a dod i ddeall mwy am y neges oedd yn cael ei thraddodi, cawsom ein haddysgu am grefydd, egwyddorion a moesau a fyddai'n sylfaen cadarn i ni trwy'n bywydau.

Wrth symud i'r presennol, 'rwy'n aml yn meddwl mor ffodus oeddwn i ddigwydd eistedd drws nesaf i Alwen (Roberts) un prynhawn wrth i'r plant gael gwrs nofio. Wrth sgwrsio a dod i'w hadnabod, des i ddeall am Gapel y Morfa. Roeddem yn awyddus i fynychu capel yn ein hardal newydd ond heb syniad pa un i'w ddewis. Cawsom groeso arbennig yno ac ar ôl yr ymweliad cyntaf hyd yn oed, roeddem yn sicr taw dyma'r addoldy delfrydol i ni fel teulu.

Diolch yn fawr,

Elin Mair Mabbutt

Cylch Gweddi a Choffi ar ddydd Mawrth am 11 y.b. ar Zoom

Mae'r cyfarfodydd Gweddi a choffi wedi ail-ddechrau ers yr ail wythnos yn Ionawr ac yn cyfarfod bob dydd Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom.

Byddwn yn parhau â'r thema '*Helaetha derfynau dy deyrnas*' ac yn gwahodd rhai o bell ac agos i ymuno â ni o dro i dro i sôn am agwedd o'r thema.

Yn y cyfarfod cyntaf cafwyd myfyrdod arbennig ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd.

Roedd yr ail gyfarfod ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol ac fe gawsom ein tywys i fyfyrion ar thema'r wythnos '*Gwelodd y Doethion y Seren a'i dilyn*' a'n cyflwyno i'r astudiaethau dyddiol a baratowyd eleni gan Gyngor Eglwys i'r Dwyrain Canol. Trefnwyd Gwasanaeth Unedig yn Eglwys Sant Mihangel ar nos Sul, Ionawr 23ain fel rhan o drefniadau'r wythnos.

Ffydd a Phaned ar ddydd Gwener am 2 y.p. ar Zoom

Mae'r astudiaethau wedi ail-ddechrau hefyd, ac roedd y ddwy sesiwn gyntaf yn cwblhau'r gyfres ar hanes y bobl a gyfarfu â'r Iesu yn Efengyl Mathew o dan y penawd *Pobl y Gyfundrefn*. Yn gyntaf soniwyd am y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, ac yn ail, y Teithwyr o Bell. Er fod cefndir ac amgylchiadau'r unigolion y buom yn myfyrio arnynt yn wahanol, yr hyn oedd yn gyffredin iddynt oedd eu bod i gyd wedi newid yn dilyn eu cyfarfyddiad â'r Arglwydd Iesu.

Diolch i Eifion am baratoi'n fanwl ar ein cyfer ac am ei arweiniad. Mae bob amser croeso cynnes i'r rhai sy'n dymuno ymuno am y tro cyntaf.

Yr Ysgol Sul Gwasanaethau Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn rhithiol ar Zoom oherwydd y cyfyngiadau presennol, hefyd y gwasanaeth teulu ar fore Nadolig. Thema'r gwasanaeth Nadolig oedd *Iesu, Goleuni i'r Byd*.

Ffilmwyd a recordiwyd cyfraniadau'r plant o dan 11 oed a'r eitemau cerddorol yn y capel ymlaen llaw a chyfraniadau'r ieuentid o gwmpas y goeden heddwch yn yr ardd ger y capel. Adroddwyd stori'r Nadolig trwy gyfrwng darlenniadau a charolau, a'r plant ieuengaf yn ffurfio darlun o olygfa'r stabl ym Methlehem. Yna, rhoddwyd sylw i sefyllfa ein byd ni heddiw.

Daeth *Iesu, Goleuni i'r Byd* i'n byd, lle mae newid hinsawdd a lle mae galw arnom i wneud pob ymdrech i ofalu am ein byd.

Daeth *Iesu, Goleuni i'r Byd* i'n byd lle mae newyn a rhyfeloedd, lle mae angen a dioddefaint a chynifer yn gorfod ffoi yn eu miloedd i chwilio am loches.

Diolch i'r ieuentid am roi colomennod heddwch ac enwau gwledydd, trefi a phentrefi ar y goeden heddwch sydd angen ein gweddïau a diolch am drefnu'r cyfraniadau at y banc bwyd.

Diolch am y cyfraniadau i'r Banc Bwyd ac am y cyfraniadau hael tuag at Apêl Cronfa Achub y plant i gynorthwyo Afghanistan. Hefyd, fel rhan o gynllun derbyn rhodd a chyflwyno rhodd Cymorth Cristnogol, anfonwyd cyfraniad oddi wrth Yr Ysgol Sul tuag at eu prosiect hadau.


Trefniadau mis Ionawr

Yn ystod mis Ionawr cynhaliwyd Ysgol Sul ar Zoom ac ar Facebook - stori, lluniau, cân a gweithgareddau crefft. Mae gweithgareddau *Croeso'r Flwyddyn Newydd* a *Hwyl ar Zoom* i'w gweld yn y lluniau. Maent yn gysylltiedig â'r storiâu canlynol: Cyflwyno Iesu i Simeon ac Anna yn y Deml, Iesu yn y Deml yn ddeuddeg oed a Bedydd Iesu.

Lluniau o weithgareddau yr Ysgol Sul



Owain â bynting 'Croeso'



Llew yn dangos Iesu fel babi ac amlen 'Diolch'



Drysa Llew, Seth a Greta i fynd gyda stori Iesu yn y Deml yn 12 oed, pan oedd Mair a Joseff ar goll yn Jeriwsalem yn chwilio am Iesu.

Gweddi

Pobloedd y Byd

Derbyn, O Arglwydd, ein heiriolaeth ar ran dy fyd,
a thrugarha wrth bawb sydd mewn angen
am ddiddanwch a chymorth dy gariad.

Pobl anghenus y byd:

y newynog, y tlodion,
y caethion a'r gorthrymedig
sydd heb wybod am gariad Duw a heb
brofi cariad cyd-ddyn.

Pobl anhapus y byd:

y galarus,
yr unig, yr amddifad a'r diymgeledd
a'r rhai sydd heb neb i'w caru.

Pobl anghyfrifol y byd:

y rhai sy'n gorthrymu eraill, sy'n malio
dim

am adfyd eu cyd-ddynion ac sydd heb barch at Dduw na dyn.

Pobl addfwyn y byd:


y rhai sy'n tystio mewn gair a gweithred
i ffordd dra rhagorol cariad Crist.

Arglwydd, dysg ni oll i edrych ar y byd a'i breswylwyr
yng ngoleuni dy gariad di,
ac i fynegi dy gariad yn ein holl ymwneud â'n gilydd.

Gwna ni'n eofn ac yn ddewr wrth weithredu dy gariad,
heb ofni pwerau'r byd
na dirmyg a gwawd dynion.

Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled
Davies a Trefor Lewis



Cymdeithas y Morfa

Parhau ar Zoom mae cyfarfodydd y Gymdeithas y tymor hwn eto. Cawsom ein harwain tuag at ddathlu'r Nadolig gan y Parchedig Lyn Léwis Dafis yn y cyfarfod ar 9 Rhagfyr. Fe'n harweiniwyd drwy hanes Sant Nicolas – y rhoi, y derbyn, yr haelioni a'r dathlu gyda Duw yn ganolbwynt i'r cyfan

Wedi egwyl y Nadolig, cafwyd cwis yng nghyfarfod cyntaf 2022 o dan ofal Gwynfor. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog yn pendroni ac ateb cwestiynau ar ddigwyddiadau 2021 (tra roeddynt yn dal yn fyw yn y cof!)- Ble yn y byd?, Llannau Cymru, Diwylliant a'r cyfryngau ac i gloi'r cyfan cafwyd rownd gyffredinol. Mwynhawyd yr arlwy yn fawr a chafwyd cyfle i ddangos ein gwybodaeth (a'n diffyg gwybodaeth!) tan fis Ionawr nesaf erbyn hyn! Llongyfarchwyd rhai o'r sêr canlynol – Eirian a Menna Evans a Gwerfyl ar eu disgleirdeb eleni! Edrychwn ymlaen at y cwis flwyddyn nesaf yn barod. Diolch i Gwynfor am ei waith yn dewis ei bynciau a'i gwestiynau'n ofalus ar gyfer y gynulleidfa – tipyn o gamp.

Cofiwch, os ydych yn mwynhau rhaglen y Gymdeithas y tymor hwn, mae croeso i chi gyfrannu i goffrau'r Gymdeithas, gan nad yw'n bosibl codi arian drwy'r dulliau arferol eleni eto.

Pris y rhaglen fyddai **£4** pe byddech yn dymuno cyfrannu.

Anfonwch yr arian at ein Trysorydd, Ifor Davies, Coed y Pry, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, SY23 1HB Ffôn symudol: 07885 903162 neu'n uniongyrchol ar-lein i'r banc:

Enw'r cyfrif: Cymdeithas y Morfa

Côd didoli: 40-08-09

Rhif y cyfrif: 41092391

Dyddiadau i'w cofio

7 Chwefror – Siân Howys

24 Chwefror – Gŵyl Ddewi yng nghwmni Tecwyn Ifan

7 Mawrth – Y Parchg Harri Parri a'i gyfrol '*Heb eu Tebyg*'

28 Mawrth - Deian Creunant



Diolch i Amelia am y llun


Geni

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwion a Zara ar enedigaeth Esme Eurona - chwaer i Kayden, wyres i Anwen a Michael Jones a gor-wyres i Meirion a Mary Morgan.

Yr Apêl Nadolig

Trosglwyddwyd cyfanswm o £1,200 i Gronfa Achub y Plant Afghanistan yn dilyn yr Apêl Nadolig. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Yn Fyw yn y Cof gan John Roberts



Cyhoeddodd un o olygyddion *Perthyn*, John Roberts, nofel ym mis Tachwedd gyda'r teitl *Yn Fyw yn y Cof*. Dyma rai o'i sylwadau amdani:

“Gallai'r nofel yma fod *ymlith nofelau tywyll, sinistr prin yr iaith Gymraeg* yn ôl un adolygydd. Yn ôl ffrind, sydd yn aelod yng Nghapel y Morfa, mae na ryw dywllwch trist yn niwedd y nofel, ac roedd hi'n methu deall pam fod rhaid i *Yn Fyw yn y Cof* ddiweddu yn y fan honno.

Ond un elfen yn unig yn y nofel yw'r tywyllwch, mae yma adegau hynod o oleuni hefyd. Nofel am dair cenhedlaeth ydi hi, Anti Glad, lorwerth a Margaret a'u merch Bethan a'i phartner Greta. I rai y mae Tyddyn Bach, y bwthyn, hefyd yn gymeriad arall. Mae'r tair cenhedlaeth yn darganfod gwerth perthynas dda, cymuned gefnogol ac yn gwybod rhywbeth am ddycnwch a dyfalbarhad ac am gariad. Nid ydynt heb eu gwendidau, ac felly nid yw eu byd yn ddelfrydol, ond mae na ddatliad yn eu bywydau ac yn eu cymuned.

Ond mae yna dywyllwch. Gallwn gydymdeimlo gyda'r bobl sydd o gwmpas lorwerth ac yntau yn dioddef o dementia. Agwedd arall yn y nofel yw *methu* anghofio pethau. Dyma, yn aml, yw achos dal dig a thalu pwyth yn ôl.

Roedd yr adolygydd a'r ffrind wedi mwynhau *Yn Fyw yn y Cof*, felly efallai nad yw'r tywyllwch yn hollol ddu yn y diwedd. Tybed nad yw'r golau i'w weld yno hefyd?”



Cyhoeddwyd '*Yn Fyw yn y Cof*' gan Y Lolfa, pris £8.99.

I ddarllen cyfweiliad â John, *Awdur y mis* am fis Rhagfyr ar wefan *Llyfrgelloedd Cymru* ewch i

<https://llyfrgelloedd.cymru/aotm/john-roberts/>

Blaenor y mis: Gwenan Creunant

Dyddiadur Chwefror 2022

Gwasanaethau'r Sul (10 y bore)

Ceir cyhoeddiadau manwl yn ystod y mis

6 Chwefror – Eifion (Zoom ac o bosib yn y capel)

13 Chwefror - Ffred Francis (Zoom)

20 Chwefror – Eifion (Zoom ac o bosib yn y capel)

27 Chwefror - Delyth Morgans-Phillips (Zoom)

Ysgol Sul Plant ac ieuenctid: yn y festri neu ar Zoom.

Cylch gweddi a choffi: Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom.

Ffydd a phaned: Prynhawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

Y Gymdeithas ar Zoom

7 Chwefror – Siân Howys

24 Chwefror – Gŵyl Ddewi yng nghwmni Tecwyn Ifan

Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.
Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Mawrth o Perthyn i
John a Sarah (sarahminyfron@hotmail.com)
erbyn dydd Sul, 20 Chwefror, os gwelwch yn dda.